

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Bridgend County Borough Council



Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich
dewis iaith.*

*We welcome correspondence in Welsh. Please
let us know if your language choice is Welsh.*



Annwyl Cyngorydd,

PWYLLGOR Y CABINET CYDRADDOLDEB

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Y Cabinet Cydraddoldeb o bell trwy Skype ar **Dydd Iau, 3 Rhagfyr 2020** am **10:00**.

AGENDA

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddo gion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. Cymeradwyaeth Cofnodion 3 - 12
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 07/10/2020
4. Adroddiad Blynyddol Cydlyniant Cymunedol 13 - 30
5. Diweddariad blynyddol ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion o fewn Strategaeth Pum Mlynedd Safonau'r Gymraeg 31 - 96
6. Effaith COVID-19 a'r cyfnod clo ar bobl â chyfrifoldebau gofalu 97 - 106
7. Adroddiad blynyddol ar waith Fforwm Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr. 107 - 110
8. Adroddiad diweddar ar weithredu Safonau'r Gymraeg 111 - 114
9. Y defnydd o'r enw Picton mewn Enwau Strydoedd ac Adeiladau ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 115 - 118
10. Materion Brys

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

[Twitter@bridgendCBC](https://twitter.com/bridgendCBC)

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwyd testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau a Swyddogion yn mynychu o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y cyfarfod. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

Dosbarthiad:

Cynghowrwyr

SE Baldwin
TH Beedle
NA Burnett
HJ David
SK Dendy
J Gebbie

Cynghorwyr

DG Howells
JE Lewis
D Patel
JC Radcliffe
KL Rowlands
CE Smith

Cynghorwyr

E Venables
SR Vidal
HM Williams
RE Young

Presennol

Y Cyngorydd D Patel – Cadeirydd

SE Baldwin	TH Beedle	NA Burnett	HJ David
SK Dendy	J Gebbie	DG Howells	JE Lewis
JC Radcliffe	CE Smith	E Venables	SR Vidal
HM Williams	RE Young		

Swyddogion:

Debra Beeke	Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol
Nicola Bunston	Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb
Jackie Davies	Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion
Julie Ellams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Andrew Thomas	Rheolwr Grŵp - Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

75. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyngorydd N. Burnett fuddiant personol yn eitem agenda 6, gan fod ei rhieni yn byw ar stad Picton Gardens, Pen-y-bont ar Ogwr.

76. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: I dderbyn Cofnodion cyfarfod pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb a gynhaliwyd ar 24 Awst 2020 fel cofnod cywir a manwl gywir.

77. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB YN Y GWEITHLU (2019/20)

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, adroddiad, i roi crynodeb i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb o broffil cydraddoldeb gweithlu'r Cyngor ar 31 Mawrth 2020 a gwybodaeth am y gofyniad am sgiliau iaith Cymraeg ar gyfer swyddi gwag.

Cadarnhaodd fod darparu gwybodaeth berthnasol a chywir am y gweithlu yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau a'i rwymedigaethau statudol mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Safonau'r Gymraeg.

Dywedodd Rheolwr y Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, fod Atodiad 1 i'r adroddiad yn darparu proffil cydraddoldeb o weithlu'r Cyngor ar 31 Mawrth 2020, gyda data cymharol o flynyddoedd blaenorol.

Roedd set ddata lawn ar gael ar sail rhyw ac oedran, fodd bynnag, nododd nad oedd yn orfodol i weithwyr ddatgelu eu gwybodaeth bersonol sensitif at ddibenion monitro cydraddoldeb. Ychwanegodd, fod gwaith yn mynd rhagddo ac wedi'i gynllunio i annog gweithwyr i ddarparu a/neu ddiweddarau manylion o'r fath, er gwaethaf y ffaith bod gweithwyr yn rhoi hyn yn wirfoddol (ac nad yw'n rhywbeth gorfodol.)

Gan gyfeirio at Atodiad yr adroddiad, dywedodd y Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol fod gan CBSPenybont gyfran fwy o weithwyr benywaidd o gymharu ag awdurdodau lleol eraill, er na ellid cymharu hyn yn llwyr ar sail debyg am debyg, o ystyried bod gwahanol awdurdodau yn allanoli gwasanaethau o wahanol faint.

Cadarnhaodd fod mwy o bobl dros 60 oed yn gweithio o fewn yr awdurdod a dyma'r duedd yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Roedd hyn hefyd yn gyson ag awdurdodau lleol eraill.

Cadarnhaodd data hefyd bod yna gynnydd o oddeutu 1.9% mewn preswylwyr o leiafrif ethnig yn y fwrdeistref sirol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Yn 2020, gwelwyd gostyngiad bach yng nghanran y gweithlu a oedd wedi datgan cyfrifoldebau gofalwr. Er yn ddi-ddorol, roedd 20% o'r staff a oedd wedi ymateb i'r arolwg (sy'n cyfateb i 350 o weithwyr, wedi nodi bod ganddynt ryw lefel o gyfrifoldebau gofalu.

O ran rhai ymholiadau a godwyd yn y Pwyllgor diwethaf ynghylch prosesau recriwtio'r Cyngor a'r angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn siaradwr Cymraeg ar gyfer unrhyw swydd benodol, cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, pan fydd swydd wag yn codi, rhaid i reolwyr gynnal asesiad o'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol trwy ystyried dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd unigol yn ogystal â dyletswyddau'r tîm. Mewn perthynas â'r swydd, mae'r meini prawf yn cynnwys, cyswllt â'r cyhoedd a'r disgwyliad i allu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg, maint y cyswllt â siaradwyr Cymraeg a'r angen i ymgymryd â gweinyddiaeth fewnol yn Gymraeg a Saesneg. O safbwynt tîm, pa un a oes yna swyddog arall ar gael sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg.

Er mwyn cynyddu nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg a gwella'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gan y cyngor, mae'r Polisi cyfredol ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle, yn nodi y bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu gyda'r Gymraeg yn ddymunol, oni bai bod yr asesiad yn nodi bod y Gymraeg yn hanfodol.

Ychwanegodd, bod y trefniadau hyn wedi'u hadolygu'n fewnol a bod argymhellion yn cael eu datblygu. Bydd y rhain nawr yn cael eu hystyried ochr yn ochr â chanlyniadau gwaith monitro 2019-20 Comisiynydd y Gymraeg, a oedd yn ymwneud â recriwtio. Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol y gallai canlyniadau terfynol hyn newid protocolau cyfredol y Cyngor o ran recriwtio siaradwyr Cymraeg ar gyfer rhai swyddi. Un o'r materion a godwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'u gwaith monitro blaenorol o fewn Adnoddau Dynol, oedd bod angen i CBSPenybont fod yn fwy penodol ynghylch yr hyn sy'n ofynnol, wrth hysbysebu swyddi gwag ac yn nodi yn y fanyleb swydd, mai un o'r meini prawf ar gyfer y swydd yw y byddai'n ddymunol i ymgeiswyr siarad Cymraeg. Dywedodd y Rheolwr Grŵp bod yr Adran Adnoddau Dynol yn ail-edrych ar y mater hwn ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd Aelod at Bwynt 5. yn yr Atodiad i'r adroddiad, lle mae'n nodi bod cyfeiriadedd rhywiol staff o ran y rhai a ddatganodd eu bod yn ddeurywiol neu'n lesbiaidd ac ati, yn gyfanswm o 1.5% (h.y. o staff). Roedd hyn yn is na'r 1.8% o staff a gadarnhaodd eu bod yn dod o leiafrif ethnig. Teimlai y gallai gwir adlewyrchiad o'r data hwn fod yn uwch nag y mae'r ganran hon yn ei adlewyrchu ac oherwydd hyn, dylid rhoi mwy o anogaeth i weithlu'r Cyngor ddarparu'r wybodaeth hon. Byddai hyn yn caniatáu rhoi adlewyrchiad mwy cywir o ran data'r Cyngor yn gyffredinol, yn hytrach na chyfrifo'r ganran yn unig o'r rhai sy'n darparu'r wybodaeth.

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol y byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach, er pwysleisiodd, nad oedd yn orfodol i staff ddarparu manylion o'r fath.

Dyweddod Aelod, er y dylai'r Awdurdod annog siaradwyr Cymraeg fel rhan o'i broses recriwtio, ei bod yn anodd ac yn afresymol o bosibl, i gael gweithlu a allai ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn ei holl feysydd gwasanaeth. Teimlai serch hynny ei bod yn hanfodol mewn rhai meysydd, er enghraifft, ar brif Dderbynfeydd yn ein hadeiladau (fel pwynt cyswllt cyntaf) a thrwy unrhyw gyswllt â'r Awdurdod dros y ffôn, h.y. i Wasanaethau Cwsmeriaid/Canolfannau Cyswllt. Ychwanegodd y gallai nodi'r angen am siaradwyr Cymraeg mewn gormod o swyddi, lle nad oedd hynny'n hanfodol, arwain at CBSPenybont ddim yn recriwtio'r person gorau ar gyfer y swydd benodol honno.

Teimlai Aelod y dylid annog gweithwyr hefyd i ddatgan cyfrifoldebau gofalu, yn enwedig ers dyfodiad y pandemig Covid-19. Roedd yn teimlo bod hyn yn hanfodol, oherwydd efallai y bydd angen cefnogaeth ychwanegol gan y Cyngor ar rai o'r unigolion hyn.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth ar yr eitem hon i ben, trwy gynghori, er na allai'r Awdurdod roi pwysau ar ei gweithlu presennol i ddod yn siaradwyr Cymraeg, roedd angen lle'r oedd galw neu reidwydd am hyn, i recriwtio pobl a oedd yn gallu sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn rhai swyddi allweddol yn yr Awdurdod.

PENDERFYNWYD: Y byddai Pwyllgor y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad.

78. GWAITH CYDRADDOLDEB SY'N CAEL EI GEFNOGI GAN WASANAETH LLES (GAN GYNNWYS Y RHWYDWAITH MERCHED, SESIYNAU NOFIO SY'N GYFEILLGAR I DDEMENTIA A'R GEMAU OLYMPAGE)

Rhoddodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion gyflwyniad byr ar yr adroddiad, cyn trosglwyddo i'r Rheolwr Grŵp - Atal a Lles, i ehangu ymhellach.

Dyweddod y Rheolwr Grŵp - Atal a Lles mai pwrpas yr adroddiad oedd darparu gwybodaeth am raglenni gwaith y gwasanaeth atal a lles a'r cyfraniad cysylltiedig at gynllun cydraddoldeb strategol CBSPenybont.

Esboniodd fod y gwasanaeth Atal a Lles wedi cynnal adolygiad mewnol o'r cynnydd a wnaed yn ystod 2019-20 ac wedi coladu'r wybodaeth mewn fformat a all gynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei gyflawni o fewn y Gyfarwyddiaeth a'r Cyngor ehangach, gyda nifer o feysydd o'r gwaith hwn yn drawsbynciol.

Cafodd cyfres o ddarnau o'r adroddiad mwy eu cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad eglurhaol, er mwyn dangos rhywfaint o'r gwaith sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn. Roedd 6 atodiad yn darparu enghreifftiau o'r gwaith sy'n digwydd yn y gwasanaeth wedi'i gynnwys fel gwybodaeth ategol.

Cyfeiriodd y Rheolwr Grŵp - Atal a Lles yn gyntaf, at y rhaglen 'Ein Llais', a ddatblygwyd i ddal barn pobl ifanc ar les ac i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a chymunedau i ddatblygu cynlluniau gweithredu.

Yna cyfeiriodd at y "Rhwydwaith Merched".

Roedd hon yn fenter a oedd yn gweithredu mewn partneriaeth â chwe ysgol uwchradd gyda ffocws ar wella iechyd a lles. Eglurodd bod y grwpiau yn gwneud ymchwil ac yn dadansoddi anghenion cyn datblygu cyfleoedd cefnogol. Nodwyd bod gwybodaeth bellach am y rhaglen hon ar gael yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Roedd y gwasanaeth hwn yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd ac uwchradd i ddefnyddio gweithgaredd allgyrsiol, i ddatblygu ffyrdd o fyw egniol ac iach.

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp - Atal a Lles fod yna raglenni eraill a oedd yn nodi ffocws cynyddol ar blant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc hefyd yn yr adroddiad blynyddol. Yn ystod y flwyddyn, cefnogwyd 19 o gynrychiolwyr o ysgolion i fynd i gwrs Hyfforddiant Cynnwys Anabledd i Athrawon. Rhoddodd y gwasanaeth gefnogaeth i ysgolion ddatblygu eu cynlluniau lles. Nodwyd bod gwybodaeth bellach am hyn ar gael yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Yna aeth ymlaen i gyfeirio at y Cynllun Heneiddio'n Dda ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, datblygu cymunedau 'cyfeillgar i oed' a chyfleoedd priodol sy'n pontio'r cenedlaethau.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Atal a Lles, bod ffocws cynyddol ar allgau digidol a'r rhai yr effeithir arnynt. Mae gwaith wedi dechrau gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru ar ddatblygu rhaglen 'gofal i gydweithredu' sy'n targedu cefnogaeth i 200 o bobl agored i niwed a gofalwyr i adeiladu sgiliau a chysylltiadau. Yn unol â hyn, roedd y gwasanaeth yn datblygu rhaglen "hyrwyddwyr gwybodaeth gymunedol" gyda sefydliadau a gwirfoddolwyr i gefnogi rhannu gwybodaeth gyda'r rhai nad oes ganddynt gysylltiad digidol.

Yna cyfeiriodd at ddatblygu cymunedau sy'n cefnogi dementia, un o amcanion strategol y Cynllun Heneiddio'n Dda ar gyfer Cymru a'r rhaglen 'Teimlo'n Dda am Oes', a oedd wedi'i datblygu gyda rhai partneriaid allweddol. Nodwyd bod manylion pellach ar y rhaglen hon wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Grŵp - Atal a Lles y bu twf mewn gwaith rhagnodi cymdeithasol gan ddefnyddio gweithgareddau diwylliannol gydag Awen sydd wedi cefnogi oedolion hŷn, pobl ifanc ag anableddau a gofalwyr. Byddai enghreifftiau'n cynnwys y prosiect eiriolaeth 'Same As' gyda rhieni sy'n ofalwyr, y rhaglen côr gofalwyr 'Off Duty', rhaglenni 'OlympAGE Diwylliannol' sy'n canolbwyntio ar hel atgofion a'r adnoddau 'creadigol gartref' a'r plattform cyfathrebu digidol 'Cryfach gyda'n Gilydd Pen-y-bont ar Ogwr'. Nodwyd bod manylion pellach am hyn ar gael yn Atodiad 4 o'r adroddiad.

Lansiwyd y rhaglen OlympAGE ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2017 i gynorthwyo oedolion hŷn i gael mwy o gyfleoedd i gymdeithasu ac i fyw bywydau egnïol ac iach. Yn 2019 llwyddodd y gwasanaeth Atal a Lles i sicrhau £400,000 o fuddsoddiad trwy'r Gronfa Iach ac Egnïol i ddatblygu dull rhanbarthol ar draws ôl troed y Bwrdd Iechyd, ychwanegodd.

Nodwyd bod y rhaglen 'Super Agers' hefyd wedi'i sefydlu ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr. Mae'r rhaglen wedi cael ei dewis fel un o brosiectau enghreifftiol Bevan. Bydd angen adolygiad yn seiliedig ar reoliadau o'r rhaglen a'r dull yn ystod 2020/21. Nodwyd bod gwybodaeth bellach ynghylch hyn ar gael yn Atodiad 5 i'r adroddiad.

Yna tynnodd y Rheolwr Grŵp - Atal a Lles, sylw at y ffaith fod y dull o weithio gyda rhwydweithiau sy'n eiddo i'r gymuned yn mynd y tu hwnt i'r Rhwydwaith Merched a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad. Yn ystod 2019-20 roedd rhwydwaith ychwanegol, Grŵp Rhwydwaith Cynhwysol Pen-y-bont ar Ogwr (BING), wedi cael ei gyd-gynhyrchu a hefyd y rhwydwaith 'Gyda'n Gilydd i Bobl Ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr' ar gyfer sefydliadau ieuencid.

Mae'r gwasanaeth yn arwain ar y ddyletswydd cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer CBSPenybont gan gynnwys asesu a chynllunio gweithredu ar gyfer yr ystod o faterion statudol. Nodwyd bod enghraifft o'r prosiect chwarae a gweithgareddau ar gael yn Atodiad 6 i'r adroddiad.

Cofnodwyd cyfanswm o 7,670 o ymweliadau â rhaglenni Heini am Oes yn Haf 2019, gyda chyfleoedd cynhwysol a lleisiodd 309 o blant eu barn ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddynt yn eu cymunedau.

Gorffennodd Rheolwr y Grŵp - Atal a Lles ei gyflwyniad trwy gyfeirio at oblygiadau ariannol yr adroddiad. Cadarnhaodd fod nifer fawr o'r rhaglenni y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad, yn cael eu cefnogi gan gyllid allanol, gan gynnwys grantiau Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru, a Chwaraeon Anabledd Cymru. Nodwyd bod rhestr o'r cyllid allanol ar gyfer 2019/20 ar gael yn Atodiad 7 o'r adroddiad.

Cymeradwyodd y Cadeirydd yr adroddiad ac ehangder hyn, o ran y mentrau iechyd a lles a oedd ar waith ar gyfer sbectwm eang o bobl a oedd hefyd yn eang o ran yr hyn a oedd ar gael ar gyfer grwpiau oedran amrywiol, yr hen a'r ifanc. Nododd hefyd o'r adroddiad, fod y Cyngor yn dysgu o brosiectau blaenorol a oedd wedi'u rhoi ar waith ac yn defnyddio'r rhain fel 'arfer gorau' ar gyfer prosiectau newydd sy'n mynd rhagddynt/arfaethedig.

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, ei bod yn Gydweddog i'r Maer, y Cyngorydd Baldwin, pan gafodd y pleser i fynd i ddigwyddiadau OlympAGE a Super Ages y llynedd, dywedodd ei fod yn brofiad gwefreiddiol a oedd yn dangos bod unigolion yn parhau i gael digwyddiadau arwyddocaol sy'n newid bywyd, ni waeth pa mor hen (neu ifanc) ydyn nhw. Adleisiodd y Maer blaenorol y teimladau hyn, gan ychwanegu ei fod yntau hefyd wedi mwynhau'r profiad yr oedd y digwyddiadau uchod wedi'i roi iddo yn fawr, pan oedd ef yn faer.

Fel Cadeirydd Evergreen Hall, cafodd arian ar gyfer taflenni a anfonwyd at genhedlaeth hŷn y Fwrdeistref Sirol yn eu cyngori am weithgareddau fel y rhai a grybwyllir yn yr adroddiad. Cymeradwyodd yr agwedd pontio'r cenedlaethau o'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo, fel y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad, er mwyn meithrin cysylltiadau agosach rhwng y cenedlaethau.

Roedd Aelod yn falch o weld y gweithgareddau amrywiol y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad, lle'r oedd llwybrau cymorth wedi'u rhoi ar waith ar gyfer grwpiau oedran cyferbyniol, yn amrywio o bobl â dementia i gefnogaeth i ferched iau. Rhoddodd ganmoliaeth hefyd i'r gefnogaeth gan y Cydlynwyr Cymunedol ac adleisiwyd hynny gan y Cadeirydd.

Daeth yr Arweinydd â'r drafodaeth i ben trwy ganmol hefyd y swm amrywiol o gefnogaeth a amlygwyd gan Aelodau eraill y Pwyllgor, y gobeithiai y gellid ei gynyddu hefyd, yn enwedig o ystyried yr amseroedd heriol yr oedd pobl mewn cymunedau yn eu hwynebu, oherwydd y pandemig parhaus.

PENDERFYNWYD: Bod Pwyllgor y Cabinet wedi derbyn, ystyried a nodi'r adroddiad.

79. DEFNYDDIO'R ENW PICTON AR ENWAU STRYDOEDD AC ADEILADAU LEDLED BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR - ADRODDIAD DIWEDDARU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr, gyda'r diben o ddarparu gwybodaeth i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar ddefnyddio'r enw Picton ar enwau strydoedd ac adeiladau ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Cyflwynwyd adroddiad cychwynnol i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar 24 Awst 2020 a oedd yn argymhell bod hanesydd lleol yn ymgymryd â gwaith ymchwil pellach. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymhell y dylai Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb aros am ganlyniad archwiliad Llywodraeth Cymru o henebion a cherfluniau hanesyddol Cymru,

ac enwau strydoedd ac adeiladau cyhoeddus cyn rhoi ystyriaeth bellach i'r camau sydd eu hangen yn y fwrdeistref sirol.

Roedd paragraff 4.2 o'r adroddiad yn tynnu sylw at sefydliadau posibl a allai wneud gwaith ymchwil pellach o'r fath, fodd bynnag, roedd hi bellach yn gallu diweddarau Aelodau, bod Gwasanaethau Hanesyddol ac Ymgynghori Past Lives wedi'u comisiynu i wneud y gwaith hwn. O ran hyn, nodwyd y byddai adroddiad amlinellol pellach yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd, a'r gobraith yw y bydd adroddiad canlyniadau manylach yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor yng nghyfarfod mis Mawrth nesaf.

Atgoffodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb, yr Aelodau fod archwiliad Llywodraeth Cymru i ddefnydd o'r enw Picton ar strydoedd ac adeiladau fel darn o waith ymchwil ar wahân fel y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad, yn mynd rhagddo.

Nodwyd bod Cyngor Sir Gâr yn gwneud darn tebyg o waith ymchwil mewn perthynas â'r mater hwn a chyfeiriodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb at baragraff 4.4 o'r adroddiad, sy'n rhoi enghraifft o'r hyn yr oeddynt wedi'i ofyn i aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â'r Gofeb i'r Cadfridog Thomas Picton a oedd wedi'i leoli yn y fwrdeistref sirol benodol honno.

Nododd Aelod fod yna stryd o'r enw Llys Picton yn Notais, nad oedd wedi'i ddyrannu trwy CBSPenybont mewn ymgynghoriad â Swyddfa'r Bost a Chyngor Tref Porthcawl ac nad oedd y stryd hon wedi'i chynnwys yn y gwaith parhaus. Nododd fod y stryd hon ar ddatblygiad preifat gan Gymdeithas Tai Hafod.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi siarad â Chymdeithas Tai Hafod, a gadarnhaodd eu bod yn bwriadu newid yr enw.

Cydnabu'r Aelod Cabinet - Cymunedau, er bod rhai enwau lleoedd a strydoedd yn y Fwrdeistref Sirol yn gysylltiedig â'r Cadfridog Picton ac felly'n gysylltiedig â'r fasnach gaethweision, bod rhai eraill wedi'u henwi ar ôl Richard Picton Turbeville o Briordy Ewenni, a oedd wedi bod yn Ynad ac a oedd hefyd wedi bod wedi ymrwymo'n sylweddol i waith a gwasanaethau gwirfoddol yn y gymuned leol. Dywedodd felly ei bod yn bwysig i wahaniaethu rhwng pa strydoedd ac adeiladu sydd wedi'u henwi ar ôl pa unigolyn.

PENDERFYNWYD:

Bod Pwyllgor y Cabinet yn ystyried yr adroddiad diweddarau ac yn aros am ymchwil gan hanesydd lleol a chanlyniad archwiliad Llywodraeth Cymru cyn rhoi ystyriaeth bellach i gamau y gallai fod angen eu cymryd o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

80. **ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB - ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2019/2020**

Cyflwynodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad, i roi diweddariad blynyddol i aelodau ar ofyniad y cyngor i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AECau), trosolwg o ddull y cyngor o ymdrin ag AECau ac amlinelliad o AECau a gynhaliwyd ym meysydd gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019/20.

Fel cefndir, dywedodd fod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi dyletswydd gyffredinol bod yn rhaid i CBSPenybont, fel corff cyhoeddus yng Nghymru, roi sylw dyladwy i dri ffactor yn ei brosesau gwneud penderfyniadau (gan gynnwys penderfyniadau ariannol) sef:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal, a;

- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydyn nhw.

Esboniodd bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn offeryn i asesu a allai polisiâu/gwasanaethau/swyddogaethau newydd (neu newidiadau i rai presennol), neu gael gwared ar wasanaethau, effeithio ar wahanol sectorau o gymdeithas mewn gwahanol ffyrdd. Pe bai'r Cyngor yn creu polisi neu'n gwneud newid mawr i wasanaeth neu swyddogaeth, trwy adroddiad er enghraifft, i'r Cabinet, yna dylai AEC gyd-fynd â'r adroddiad, neu os na, yna dylid gwneud gwiriad AEC.

Dywedodd bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AECau) yn helpu'r cyngor i wneud penderfyniadau gwell, adnabod sut y gall gwasanaethau fod yn fwy hygyrch neu well ac ystyried y naw nodwedd warchoddedig yn ogystal â'r effaith ar y Gymraeg.

Ychwanegodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y bydd y pecyn cymorth AEC yn cael ei ddiwygio yn barod ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ym mis Mawrth 2021, i gynnwys arweiniad i swyddogion ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a phryd y mae angen ystyried hyn.

Bydd gweinyddiaeth y prosesau AEC hefyd yn cael ei hadolygu, a rhoddir ystyriaeth i broses asesu ar-lein i gynorthwyo gyda choladu a chyhoeddi data. Ar hyn o bryd, mae AECau llawn yn gysylltiedig ag adroddiadau Cabinet ac felly maen nhw'n dod yn ddogfennau cyhoeddus. Mae'r holl wiriadau AEC yn cael eu cadw gan y maes gwasanaeth.

O ran hyfforddiant, cadarnhaodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb bod modiwl e-ddysgu yn parhau i fod ar gael i weithwyr sy'n darparu trosolwg o AECau, eu rôl mewn gwella gwasanaethau a chanllawiau i'w cynnal. Ar ddiwedd y modiwl, mae gan staff gyfle i gwblhau AEC a chymharu hyn yn erbyn fersiwn sydd eisoes wedi'i chwblhau i asesu sut mae'r modiwl wedi cynorthwyo o ran gwybodaeth a dealltwriaeth. Ychwanegodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb, fod 225 o weithwyr y cyngor hyd yma wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu ar AECau.

Ychwanegodd rhwng Chwefror 2019 a Mawrth 2020, bod 8 AEC llawn wedi'u cynnal gydag adroddiadau Cabinet i gyd-fynd â nhw, a'u bod wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Nodwyd bod 68 gwiriad AEC wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod hwn a bod y rhain wedi'u hatodi yn Atodiad 2. Cyfeiriwyd at y gwiriadau hyn yn yr adroddiad(au) Cabinet perthnasol ac roeddent yn dangos y gallai'r polisi(au) sy'n cael eu hasesu naill ai gael eu hepgor neu y byddai angen gwneud AEC llawn. Roedd hyn wedi cymharu'n ffafriol â'r llynedd, pan gynhaliwyd 6 AEC llawn a 33 gwiriad AEC.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn falch o nodi bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u datblygu ar-lein fel rhan o e-ddysgu a bod nifer y Gwiriadau AEC ac AECau llawn yn cynyddu o'i gymharu â'r llynedd.

Nododd Aelod fod y Cabinet wedi ystyried adroddiad Rheoli Llygredd Aer yn ddiweddar a chyda hyn yn effeithio ar bobl â phroblemau anadlu, roedd yn synnu gweld nad oedd dogfen AEC wedi dod gyda'r adroddiad hwnnw.

Gofynnodd hefyd faint o'r rheolwyr a oedd yn gymwys i wneud yr hyfforddiant AEC oedd wedi gwneud yr hyfforddiant hyd yn hyn.

Dyweddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y byddai'n trafod y pwynt uchod gyda'r adran Adnoddau Dynol ac yn rhoi ateb i'r Aelod, y tu allan i'r cyfarfod.

Y flwyddyn cyn y llynedd, cadarnhaodd fod yr hyfforddiant wedi'i gyflwyno wyneb yn wyneb gan sefydliad hyfforddi allanol o'r enw Red Shiny Apple. Roedd y gyfran hon o hyfforddiant wedi nodi y dylai 60 - 65 o Reolwyr fod wedi cofrestru ar gyfer yr hyfforddiant a bod 56 o'r rhain wedi cwblhau'r hyfforddiant, felly roedd hon yn ganran eithaf uchel yn gyffredinol.

O ran yr adroddiad Rheoli Ansawdd Aer a ystyriwyd yn ddiweddar gan y Cabinet, eglurodd mai adroddiad diweddarau oedd yr adroddiad hwnnw ac oherwydd hynny, mae'n debyg nad oedd angen AEC llawn gydag ef.

PENDERFYNWYD:

Y byddai Pwyllgor y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed yn y Cyngor yn ystod 2019/2020 wrth gwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, y cynnydd a wnaed gyda hyfforddiant (e-ddysgu a datblygu hyfforddiant wyneb yn wyneb) a'r adolygiad o'r prosesau gweinyddu i gefnogi'r meysydd gwasanaeth.

81. **ADRODDIAD CYNLLUN GWEITHREDU'R CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (DIWEDDARIAD AR Y GWAITH A WNAED GAN Y CYFARWYDDIAETHAU YN Y 12 MIS DIWETHAF).**

Rhoddodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb adroddiad, a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) 2016 - 2020 yn ystod 2019/2020. Dyma'r pedwerydd adolygiad blynyddol a'r olaf ar gyfer y cynllun hwn, ychwanegodd.

Esboniodd, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) (2016-2020) y Cyngor wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 15 Mawrth 2016.

Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach gyda'r grwpiau cydraddoldeb ac amrywiaeth cyhoeddus yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2016, er mwyn datblygu'r cynllun gweithredu a fyddai'n cefnogi cyflawni'r saith amcan yn y CCS dros y cyfnod o bedair blynedd. Ymgynghorwyd â swyddogion allweddol/arweiniol ynghylch datblygu camau gweithredu ystyrion a chyraeddadwy yn eu priod wasanaethau. Roedd y cynllun gweithredu terfynol yn ddogfen fyw ac yn cynnwys 47 o gamau gweithredu. Cafodd ei gymeradwyo gan Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ym mis Gorffennaf 2016. Cafodd y cynllun gweithredu ei atodi fel dogfen gefndir i'r adroddiad (yn atodiad un).

Atgoffodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb yr Aelodau, fod y Pwyllgor wedi cael tri diweddariad ar gynnydd. Cyflwynwyd cynnydd yn ystod 2016/17 yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2017, cyflwynwyd cynnydd yn ystod 2017/18 ym mis Gorffennaf 2018 a chyflwynwyd cynnydd yn ystod 2018/19 i'r Aelodau ym mis Gorffennaf 2019.

Gan gyfeirio at yr amser presennol, cyfeiriodd yr Aelodau at atodiad 1 yr adroddiad, a oedd yn manylu ar y cynnydd ar gynllun gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ar gyfer 2019/2020 a dangoswyd pwyntiau allweddol ynglŷn â hyn ar ffurf pwyntiau bwled ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad, mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Cludiant
- Meithrin cysylltiadau da a hyfforddiant ymwybyddiaeth;
- Ein rôl fel cyflogwr;

- Iechyd meddwl;
- Plant;
- Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant, a
- Mentrau data

Cadarnhaodd Aelod ei fod yn falch o'r cynnydd a wnaed dros y pedair blynedd diwethaf yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynigion ei Gynllun Gweithredu ategol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf/gyfredol. Yn ystod ei dymor fel Maer, hyd yn ddiweddar iawn, roedd wedi bod yn rhan o'i rôl mewn nifer o ymrwymadau fel yr adlewyrchwyd yn y cynllun gweithredu, i gefnogi Troseddau Casineb ac Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth eraill yr oedd y Cyngor wedi bod yn ymwneud â'u hyrwyddo fel awdurdod lleol.

Cyfeiriodd at y gefnogaeth i ffoaduriaid o Syria yn ystod pedair blynedd olaf y CCS, ond nododd ei fod yn teimlo y dylid ymestyn hyn yn awr a'i gynnydd i bob ffoadur.

Cadarnhaodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb ei bod yn cydnabod bod angen ystyried hyn.

O ran e-ddysgu gan gynnwys ar faterion pwysig fel codi Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, ychwanegodd bod bwriad i gynyddu hyn ynghyd ag ehangu modiwlau e-ddysgu eraill ac i roi proffil uwch i e-ddysgu, fel bod staff yn cael eu hannog i gymryd rhan yn hyn, gyda'r farn tymor hwy yn bosibl, o gynnwys hyn yn rhan o adolygiadau perfformiad staff.

Ychwanegodd Aelod ei fod yn teimlo y dylai'r Cyngor eirioli Swyddogion Cymorth Cyntaf ym maes lles ac ymwybyddiaeth iechyd meddwl, yn enwedig yng ngoleuni'r argyfwng Covid, a oedd wedi rhoi llawer o bwysau ychwanegol ar weithwyr y Cyngor, yr oedd y pwysau hwn wedi effeithio'n andwyol ar rai ohonynt yn emosiynol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y byddai'n trafod hyn gyda'r adran Adnoddau Dynol ac yn diweddarau'r Aelodau o'r canlyniad yn unol â hynny.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 103 o'r adroddiad a datblygu model SIMS ar gyfer Bwlio mewn Ysgolion, er ei fod wedi'i ddefnyddio'n fewnol, nid oedd ysgolion wedi'i orfodi. Holodd pam nad oedd y system wedi cael ei ddefnyddio yn ein hysgolion eto.

Dywedodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb y byddai'n cysylltu â'r Adran Addysg ac yn rhoi adborth i'r Aelod, y tu allan i'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Cabinet wedi derbyn, ystyried a nodi'r adroddiad a'i atodiad.

82. ADRODDIAD DIWEDDARU AR WEITHREDU MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011 A SAFONAU'R GYMRAEG

Mae'r adroddiad hwn yn diweddarau Pwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ar weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg.

Atgoffodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb, yr Aelodau, ers i'r Cyngor gael rhybudd cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2015, bod y cynnydd tuag at weithredu'r 171 o safonau a neilltuwyd wedi parhau.

Ychwanegodd fod crynodeb o'r cynnydd/diweddariadau allweddol o ran cydymffurfio ers yr adroddiad diweddarau diwethaf yn yr adroddiad, fel a ganlyn:

- a) Bob blwyddyn mae'r Comisiynydd Iaith yn monitro profiad y defnyddiwr trwy brofi gwasanaethau penodol, gan gynnwys gohebiaeth, sgysiau ffôn, y wefan a gwasanaethau derbynfa. Roedd CBSPenybont yn rhan o'r sampl ar hap o sefydliadau a ddewiswyd i'w monitro gan swyddfa'r Comisiynydd yn ystod 2019/2020. Cawsom ganlyniadau'r ymarfer monitro ar 12 Awst 2020 ac rydym wedi paratoi ymateb i'r Comisiynydd ar y canfyddiadau. Mae'r ymateb yn amlinellu'r camau gweithredu perthnasol yr ydym wedi'u cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r meysydd yr oedd angen mynd i'r afael â hwy.
- b) Ar 21 Awst 2020 cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ddatganiad i'r holl awdurdodau lleol. Diben y datganiad oedd rhannu canfyddiadau'r ymchwiliad a gynhaliwyd i Gyngor Sir y Fflint â chynghorau eraill i sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r ddyletswydd i gydymffurfio â safonau wrth drefnu i drydydd partïon ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau ar ein rhan.
- c) Gwahoddwyd CBSPenybont i fynd i ddigwyddiad lansio adroddiad sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg ar 15 Medi 2020. Cynhaliodd y Comisiynydd ddigwyddiad ar-lein byr i gyflwyno darganfyddiadau ei adroddiad sicrwydd ar gyfer 2019/2020. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar ddiwrnod y digwyddiad. Bydd diweddariad ar yr adroddiad sicrwydd yn cael ei ddarparu i Bwyllgor y Cabinet Cydraddoldeb ym mis Tachwedd 2020.

Cyfeiriodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb at yr un gŵyn newydd a gafodd y Cyngor ar 14 Awst 2020, y cadarnhawyd ei natur ym mharagraff 4.1 d) o'r adroddiad. Adroddodd bod ymateb wedi'i anfon at y Comisiynydd mewn perthynas â'r gŵyn.

Yna amlinellodd yr adroddiad y camau a gymerwyd mewn perthynas â chwynion blaenorol a dderbyniwyd mewn perthynas â chardiau pleidleisio a chydabyddiaeth gan y Cyngor, ei fod wedi cael taliad am y dreth Gyngor.

Mewn ymateb i nifer o bwyntiau a wnaed gan Aelodau ar y gŵyn newydd ac a wnaed yn flaenorol mewn perthynas â chardiau pleidleisio, roedd Aelod yn teimlo ei bod yn ddoeth i'r Cyngor drefnu i brawfddarllen cyfieithiadau a anfonir i'w cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg ac yna eu dychwelyd, gan y gellir dehongli rhai geiriau yn y ddwy iaith hyn yn wahanol o ran eu cyd-destun.

Ymatebodd y Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb, trwy gadarnhau pan mae'r cyngor yn anfon dogfennau ac ati i'w cyfieithu i'r Gymraeg, bod y rhain yn cael eu prawfddarllen gan fod hyn yn rhywbeth sy'n rhan o'r cytundebau contract rhwng y cyngor a'i gyfieithwyr.

PENDERFYNWYD:

Bod Pwyllgor y Cabinet wedi derbyn, ystyried a nodi'r adroddiad.

83. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:10

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL

REPORT TO CABINET COMMITTEE EQUALITIES

3 DECEMBER 2020

REPORT OF THE CORPORATE DIRECTOR CHIEF OFFICER FINANCE, PERFORMANCE AND CHANGE

ANNUAL REPORT ON COMMUNITY COHESION

1. Purpose of report

- 1.1 The purpose of this report is to provide an annual report on the work of the Welsh Government Funded Community Cohesion Officer and the community cohesion work of Bridgend Community Safety Partnership

2. Connection to corporate well-being objectives / other corporate priorities

- 2.1 This report assists in the achievement of the following corporate well-being objectives under the **Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015**:-

1. **Supporting a successful sustainable economy** –. taking steps to make the county borough a great place to do business, for people to live, work, study and visit, and to ensure that our schools are focussed on raising the skills, qualifications and ambitions for all people in the county borough.
2. **Helping people and communities to be more healthy and resilient** - taking steps to reduce or prevent people from becoming vulnerable or dependent on the Council and its services. Supporting individuals and communities to build resilience, and enable them to develop solutions to have active, healthy and independent lives.

3. Background

- 3.1 In December 2018 Welsh Government issued their 'intention to fund' email to all Regional Community Cohesion Co-coordinators in Wales. Welsh Government indicated that each region would be allocated £140,000 to:

- Identify and mitigate community tensions (hate crime, extremism, anxiety, anti-social behaviour) relating to Brexit;
- Improve community cohesion communications;
- Organise events/activities to promote social inclusion; and
- Deliver non Brexit activities as outlined in the National Community Cohesion Plan (2019).

- 3.2 At that time Bridgend County Borough Council, (BCBC), Swansea Council and Neath Port Talbot County Borough Council made up the Western Bay Community Cohesion Region, led by a Regional Community Cohesion Co-coordinator based in Swansea Council.

- 3.3 To ensure BCBC could access the funding an application for £140,000 for the Western Bay Community Cohesion Region was submitted and accepted.
- 3.4 BCBC appointed a Community Cohesion Officer in September 2019. The post is funded until 31 March 2021

4. Current situation/proposal

- 4.1 The role of the Community Cohesion Officer (the officer) in Bridgend County is to:
- support the delivery of the Western Bay Community Cohesion Delivery Plan by working with the Regional Community Cohesion Coordinator to identify and mitigate community tensions;
 - work with local partners including South Wales Police to monitor community tensions and hot spots, and co-ordinate a multi-agency response to reduce tensions and / or undertake preventative work;
 - continue the community mapping exercise to better understand the impacts of Brexit on communities, through direct engagement with local residents and communities;
 - Undertake regular engagement with groups vulnerable to community tensions in relation to Brexit (European Union (EU) citizens, Black, Asian and Minority Ethnic (BAME) communities, and other protected characteristic groups), collating intelligence on tensions as they emerge; and
 - work with community based groups to support them in building their capacity through social integration initiatives and identification of grant funding opportunities.
- 4.1.1 The Community Cohesion Officer is based within the Bridgend Community Safety Partnership (CSP). Bridgend CSP is a sub board of Bridgend Public Services Board. The CSP brings together public, private and voluntary agencies to reduce crime, disorder and fear of crime. They do this by tackling the needs of both individuals and communities. More information on Bridgend CSP can be found <https://www.bridgend.gov.uk/my-council/community-safety-partnership/about-the-bridgend-community-safety-partnership/>
- 4.1.2 The Community Cohesion Officer works closely with Bridgend CSP partners to avoid duplication and ensure collaboration across all aspects of community safety and cohesion.
- 4.1.3 Events locally, nationally and globally have had a significant effect on community cohesion work in Bridgend County.
- 4.1.4 Although still low in numbers there has been a spike in reports of hate crime in Bridgend County during recent months. This increase has been reflected in most local authorities across Wales. Some of these additional incidents may be due to increased reporting following campaigns and the work done during hate crime weeks.
- 4.1.5 Chart 1 below illustrates hate crime figures for the period April to September 2020 with a comparison to the previous 2 years.




Chart 1 Victim Support Hate Crime Bridgend data

4.1.6 Chart 2 below gives a monthly break down per local authority area.

Hate Crime – Local Authority Breakdown




Chart 2 Victim Support Hate Crime Breakdown

4.1.7 As well as Brexit other issues have contributed to community tensions. The restrictions associated with COVID-19 have presented problems, including disputes with neighbours and complaints over 'gatherings' and re-housing some homeless individuals.

4.1.8 The closure of facilities for children and young people has led to an increase in anti-social behavior in some areas, which in turn causes community tension.

4.2 Progress to date

4.2.1 The focus of the community cohesion officer has included work on the effects of Brexit, as well as the broader community cohesion agenda.

4.2.2 A key element of the Brexit work has included engaging with individuals and communities to ensure maximum uptake of the European Union Settlement Scheme (EUSS) including some of the examples below. More information on the EUSS can be found in **Appendix 1**.

4.2.3 A social media campaign promoting the EUSS and BCBC's Brexit page has been developed. This included sharing 43 Social media posts to promote the EUSS. The campaign generated 690 clicks through to the BCBC Brexit page. Residents can access a range of advice and support in various languages for their EUSS applications from a range of organisations

4.2.4 Over 90 frontline staff from a range of partner organisations have attended EUSS information and awareness raising sessions coordinated by the Community Cohesion officer.

4.2.5 Drop in sessions with Citizens Advice Bureau, Newfields Law and Settled have been held and EU nationals from Latvia, Lithuania, Poland, Greece, Romania, France and Italy have received one to one support with their EUSS applications.

4.2.6 Translated information on Covid-19 and social distancing along with community support from BAVO has been shared via Bridgend Health & Wellbeing social media and BCBC social media platforms.

4.2.7 Information on how to celebrate Ramadan and Eid, during lock down, including how to access local and national support has been provided via BCBC social media, website and BCBC Health & Wellbeing pages.

4.2.8 An Additional Language Skills survey of BCBC staff was undertaken during the summer of 2020. The survey identified 14 different languages spoken by BCBC employees. These are:

- French 4
- Italian 3
- German 3
- Russian 2
- Polish 2
- Spanish 2
- Japanese 1

- Mandarin 1
- Sinhala 1
- Creole 1
- Slovak 1
- Cantonese 1
- Czech 1
- Ukrainian 1

4.2.9 Of the respondents to the survey 59% agreed they would volunteer to support residents with specific language needs.

4.2.10 The community cohesion officer has worked with the Citizens Advice Bureau and Bridgend College to deliver an online Webinar focused around EUSS support during lockdown. At the end of the Webinar there was an opportunity for students to ask general questions

4.2.11 The officer has supported the development of a script for the EUSS animated video, which has been promoted via social media.

4.2.12 The officer also worked alongside South Wales Police and other partners to promote the peaceful Black Lives Matters demonstrations in Bridgend and Porthcawl.

4.3 Community Tensions

4.3.1 Alongside community and stakeholder engagement, work continues on tension monitoring within local communities.

4.3.2 Tensions identified by partners are reported via the tension monitoring system to the Safer Bridgend Inbox.

4.3.4 Weekly meetings are held between the Community Cohesion Officer and South Wales Police Hate Crime Officer to identify areas of tension and identify additional interventions or actions.

4.3.5 The community cohesion officer provides the secretariat for the Prevent Channel Panel. This role includes coordinating requests to partners (partnership scanning) for information from the Welsh Extremism and Counter Terrorism Unit (WECTU) on individuals who are at risk of being drawn into extremism and radicalisation.

4.3.6 Regular engagement meetings are held with the Well-being & Safeguarding Officer at Bridgend College, to share intelligence and concerns from our students, BAME residents and refugees, and provide regular engagement with our local Faith group leaders via email and phone.

